# Cyflwyniad

## gan y Cyfarwyddwyr

Annwyl ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn y cyfle cyffrous iawn hwn i weithio o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Iechyd Cymunedol.

Penodiad ar y cyd yw hwn sy'n dangos ymrwymiad parhaus Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i weithio mewn modd integredig.

Rydym yn chwilio am arweinydd carismataidd ac ymaddasol a fydd yn gallu rheoli sgiliau a nodweddion sylweddol y staff yn yr adran i sicrhau ei bod yn gweithredu'n effeithlon a'i bod yn parhau i ddatblygu a gwella.

Efallai y byddwch eisoes yn ymwybodol o'r cynnydd gwych a wnaed wrth weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn benodol ein ffocws ar integreiddio gwasanaethau. Mae cynllun gofal cynradd Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru a'r clystyrau sy'n fwyfwy amlwg wedi ategu'r ffocws hwn.

Wrth gwrs mae llawer i'w wneud o hyd wrth i ni gydbwyso'r angen i barhau i wella gwasanaethau â realiti llwm pwysau ariannol.  Mae'r ymrwymiad i gyflawni deilliannau cadarnhaol i'n poblogaeth yn ganolog i'n ffordd o weithio o hyd.

Mae'n amser mwy heriol nag erioed i weithio yn y sector cyhoeddus, yn enwedig o fewn gofal cymdeithasol ac iechyd. Mae degawd o gyni a phandemig byd-eang wedi rhoi pwysau eithafol ar lawer o'n gwasanaethau. Mae angen ein gwasanaethau'n fwy nag erioed ond er mwyn diwallu anghenion ein dinasyddion, rhaid i ni barhau i drawsnewid a datblygu'r ffordd rydym yn eu darparu.

Rydym yn hoffi bod yn wahanol a gosod tuedd ar gyfer newid cadarnhaol yn hytrach na dilyn llwybrau pobl eraill. Rydym wedi ennill nifer o wobrau cenedlaethol ac rydym hefyd wedi cael ein cydnabod am ein harferion arloesol.

Dylai fod gennych gefndir ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol a byddwch wedi gweithio ar lefel rheoli strategol i gyflawni pob math o brosiectau a mentrau gan allu ffurfio perthnasoedd â phartneriaid yn hawdd.

Mae'r gallu i reoli'r heriau o weithio i ddau sefydliad mawr hefyd yn hynod bwysig. Yn ddelfrydol byddwch yn arweinydd sy'n annog staff i ddatrys eu problemau eu hunain, gan roi'r cymorth sydd ei angen mewn perthynas ag unrhyw agweddau ar eu profiad neu eu sgiliau pan fo angen gwneud hynny.

Yn ogystal â hynny, bydd gennych ddealltwriaeth emosiynol ragorol a'r gallu i ragweld sefyllfaoedd a allai aflonyddu ar eich grwpiau staff, gan eich galluogi i wella eu perfformiad a'u lles parhaol yn y ffordd orau.

Os yw hyn yn swnio fel chi, byddwn yn croesawu sgwrs anffurfiol am y rôl a'r cyfle i siarad yn fanylach am yr hyn sydd o'n blaenau. Gallwch gysylltu â ni yn lcarver@valeofglamorgan.gov.uk and lisa.dunsford@wales.nhs.uk

Rydym bob amser am sicrhau bod ein staff yn mwynhau eu gweithle a bod pob cyfle ar gael iddynt i ddatblygu eu sgiliau a'u profiad. Rydym yn wirioneddol yn credu bod y rôl hon yn gyfle rhagorol i arweinydd sydd am gyrraedd lefel nesaf ei yrfa ac rydym yn edrych ymlaen yn fawr i weithio gyda'r ymgeisydd llwyddiannus.

Yn gywir,

*Lance Carver*
*Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol*
*Cyngor Bro Morgannwg*

*Lisa Dunsford*
*Cyfarwyddwr Gweithrediadau – Gofal Sylfaenol Cymunedol a Chanolraddol*




